# Papur y Bwrdd

17 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Fframwaith Perfformiad 2016-17** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **Papur NRW B 18.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Clive Thomas** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Mark Hughes |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd:<br>1. Gytuno ar Fframwaith Perfformiad 2016-17.<br>2. Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Fframwaith Perfformiad gan gynnwys Dangosfwrdd diwygiedig y Cynllun Busnes, er mwyn i'r Tîm Gweithredol allu cadarnhau'r manylion.<br>3. Nodi'r amserlenni ar gyfer adrodd yn 2016-17.<br>4. Nodi y bydd Fframwaith Perfformiad 2016-17, pan gytunir arno, yn cael ei ailgyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai os oes angen, er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau pellach yn dilyn diwedd y flwyddyn adrodd. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | **Effaith ar yr amgylchedd, yr economi, y gymuned a gwybodaeth**:<br>Mae'r Fframwaith Perfformiad yn dangos y cynnydd a wnaed o ran y dangosyddion ar sail ail flwyddyn ein Cynllun Corfforaethol ac o ran y gwaith o gyflawni'r targedau yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17. |

**Mater**

1. Datblygwyd Fframwaith Perfformiad yn 2014/15 er mwyn ymateb i'r gofyniad penodol yn y Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2014/15, ac er mwyn dangos perfformiad ar sail ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014/17 a Chynllun Busnes 2014/15. Cafodd ei ddiwygio ar gyfer ail flwyddyn ein Cynllun Corfforaethol ym mis Mawrth 2015. Erbyn hyn, mae'r Fframwaith Perfformiad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu blwyddyn olaf ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2014/17 a Chynllun Busnes 2016-17. Mae tair elfen allweddol yn perthyn i'r Fframwaith Perfformiad o hyd:

- Crynodeb o'n perfformiad ar sail ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes,
- Gwybodaeth fanwl am ein perfformiad ar sail dangosyddion y Cynllun Corfforaethol a mesurau'r Cynllun Busnes, a
- Dangosfwrdd un dudalen o'n perfformiad sy'n cyfuno mesurau a dangosyddion dethol.
  Mae'r diwygiadau yn ddiwygiadau i fesurau'r Cynllun Busnes yn bennaf, gan fod angen i'r rhain adlewyrchu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17.

2. Y Fframwaith Perfformiad yw un o brif ddulliau'r Bwrdd o graffu ar yr hyn yr ydym yn ei gyflawni ac o gefnogi gwaith cynllunio strategol yn ystod 2016-17 a thu hwnt i hynny. Cafodd y diwygiadau eu trafod ag un o is-grwpiau'r Bwrdd ar 25 Chwefror 2016 a chaiff y cynnig ei gyflwyno i'r Bwrdd yn awr er mwyn cytuno arno cyn ei weithredu.

3. Bydd y gwaith adrodd yn ystod 2016-17 yn dal i ddigwydd bob pedwar mis.

**Asesiad**

4. Mae'r gwaith o ddiwygio'r Fframwaith Perfformiad wedi ystyried nifer o bwyntiau:

- Yr amcanion a'r targedau a nodwyd yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17.
- Yr eitemau a godwyd yn ein Llythyr Cylch Gwaith ar gyfer 2016-17.
- Y perfformiad ar sail dangosfwrdd y Cynllun Busnes ar gyfer 2015-16.
- Y pwyntiau a godwyd pan fu'r Bwrdd yn ystyried Fframwaith Perfformiad 2015-16 ym mis Hydref 2015 a mis Ionawr 2016.
- Y pwyntiau a godwyd wrth drafod ag is-grŵp y Bwrdd ar 25 Chwefror 2016.
- Y graddau y mae targedau ein Cynllun Busnes yn cefnogi'r nodau llesiant newydd.

5. Mae'r cynnig yn cynnwys cyfres o 24 o fesurau ar draws ein pum thema 'Da'. At ei gilydd, mae hynny'n golygu y ceir wyth mesur yn llai nag yn 2015-16 (mae un deg a saith o fesurau wedi'u dileu ac mae naw mesur newydd wedi'u hychwanegu). Mae hynny'n adlewyrchu blaenoriaethau busnes newydd neu achosion lle mae gwaith wedi ymsefydlu erbyn hyn ac yn cael ei dracio ar ddangosfyrddau'r Cyfarwyddiaethau. Mae'r dangosfwrdd hefyd yn cynnwys naw o Ddangosyddion ein Cynllun Corfforaethol, a fydd yn para gydol oes y Cynllun Corfforaethol. Mae dau o'r mesurau a gafodd eu dileu wedi'u cyfuno â dangosyddion tebyg sy'n ymddangos ar y dangosfwrdd. Mae hynny'n rhan o'n hymdrech i symleiddio'r Fframwaith Perfformiad a'i gwneud yn haws i amlygu'r cysylltiadau rhwng canlyniadau gan ddefnyddio ein dangosyddion, a'r gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau sydd yn ein Cynllun Busnes.

6. Mae'r mesurau newydd a ychwanegwyd ar gyfer 2016/17 fel a ganlyn:

- Thema Gwybodaeth: Datblygu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Datblygu Datganiadau Ardal, rhannu data, cyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol a datblygu'r archif o ddata amgylcheddol.
- Thema'r Amgylchedd: Gweithio i weithredu'r Cynllun Adfer Natur a gwerthuso statws carbon net Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Thema Busnes: Bydd mesur sy'n bodoli'n barod ar reoleiddio gwastraff yn cael ei addasu er mwyn ystyried sut mae creu sefyllfa deg ar gyfer gwaith casglu gwastraff.
- Thema'r Sefydliad: Datblygu Cynllun Corfforaethol newydd a gweithredu Adolygiadau o Feysydd Busnes.

7. Bydd y Fframwaith Perfformiad yn parhau i fod yn ymateb i'n Cynllun Corfforaethol a gymeradwywyd ac a gyhoeddwyd ar gyfer 2014-17 yn ogystal â Chynllun Busnes 2016-17. Bydd yn dangos cynnydd o ran y canlyniadau yr ydym yn anelu atynt yn y Cynllun Corfforaethol, a'r graddau yr ydym yn cyflawni'r hyn a nodwyd yn ein Cynllun Busnes. Mae gan y Bwrdd rôl i'w chwarae o safbwynt y Fframwaith Perfformiad, sef cynorthwyo a chynghori'r Tîm Gweithredol ac ymgymryd â gwaith craffu a llywodraethu.

8. Bydd yr adroddiad i'r Bwrdd ar berfformiad yn dal i ddigwydd mewn sesiwn 'agored' bob pedwar mis yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru ynghylch adrodd (mis Hydref 2016, mis Chwefror 2017 a mis Mai 2017). Bydd y Fframwaith Perfformiad ar gael i'r cyhoedd a staff, a bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru wedi i'r Bwrdd ei ystyried.

**Argymhelliad/Argymhellion**

9. Gofynnir i'r Bwrdd:

- Gytuno ar Fframwaith Perfformiad 2016-17.
- Cymeradwyo'r diwygiadau i'r Fframwaith Perfformiad gan gynnwys Dangosfwrdd diwygiedig y Cynllun Busnes, er mwyn i'r Tîm Gweithredol allu cadarnhau'r manylion.
- Nodi'r amserlenni ar gyfer adrodd yn 2016-17.
- Nodi y bydd Fframwaith Perfformiad 2016-17, pan gytunir arno, yn cael ei ailgyflwyno i gyfarfod y Bwrdd ym mis Mai os oes angen, er mwyn cynnwys unrhyw newidiadau pellach yn dilyn diwedd y flwyddyn adrodd.

**Prif risgiau**

10. Mae'r gwaith o ddiwygio'r Fframwaith Perfformiad wedi'i drefnu fel ei fod yn cyd-fynd â chyhoeddi Cynllun Busnes 2016-17, a'i fod felly'n cynorthwyo'r gwaith o lunio Cynlluniau Cyflawni a Dangosfyrddau'r Cyfarwyddiaethau. Mae hynny'n golygu mai perfformiad dangosol, yn hytrach na pherfformiad gwirioneddol, sydd wedi'i ystyried ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer 2015-16. Er mwyn sicrhau bod perfformiad gwirioneddol yn cael ei ystyried, bydd y Fframwaith Perfformiad yn cael ei ailgyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai 2016 os bydd angen unrhyw ddiwygiadau.

11. Heb graffu'n briodol ar ein perfformiad, ceir risg y gallem fethu â chyflawni ein Cynllun Corfforaethol a'n Cynllun Busnes, a allai arwain at niweidio ein henw da.

**Goblygiadau ariannol**

12. Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm wrth ddarparu'r adroddiad hwn ynghylch perfformiad.

## **Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

13. Amherthnasol

## **Mynegai i'r Atodiadau**

Atodiad 1: Dangosfwrdd Cynllun Busnes 2016-17 (DRAFFT)